**COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU**

**CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 22 MEDI 2015 YN NHŶ HASTINGS.**

**Yn bresennol:** Mr Owen Watkin (Cadeirydd); Mr Ceri Stradling; Mr David Powell; Mr Theodore Joloza, a Mrs Julie May

**Swyddogion CFfDLC yn bresennol:** Mr. Steve Halsall (Prif Weithredwr); Mr. Matt Redmond (Dirprwy Brif Weithredwr); Mrs Rachel Williams (Rheolwr Cymorth Busnes); Mr. David Carr (Rheolwr Cyllid); Mr. Tom Jenkins (Swyddog Arolygon); Mr. Ross Evans (Swyddog Arolygon); Mr. Daniel Mosley (Swyddog Arolygon), Mr. Ralph Handscomb (Swyddog Arolygon); a Mrs Catherine Thomas (Cynorthwyydd Arolygon);

**Amser Dechrau: 09:30**
**Amser Gorffen: 15:30**

## 1. Datganiadau o Fuddiant.

1.1 Datganodd Mrs. May fuddiant personol yn y materion a ystyrir o dan 10 isod (Arolwg Cymunedol Castell-nedd Port Talbot) a gadawodd y cyfarfod tra bod y mater hwn yn cael ei ystyried.

## 2. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd

2.1. Croesawyd Mrs. Julie May gan y Cadeirydd. Roedd Mrs. May wedi'i phenodi yn Gomisiynydd yn y Comisiwn o fis Medi 2015.

2.2. Croesawyd Mr Theodore Joloza gan y Comisiwn. Roedd Mr Joloza wedi'i benodi yn Gomisiynydd yn y Comisiwn o fis Medi 2015.

2.3. Dymunwyd yn dda i Mrs Rachel Williams wrth iddi ddychwelyd i'r gwaith.

2.4. Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai swyddogion o Lywodraeth Cymru yn cyfarfod ag ef yn fuan i drafod arolygon o gynghorau tref a chymuned yn y dyfodol.

## 3. Cofnodion o gyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 21 Gorffennaf 2015

3.1. **Penderfynwyd** cymeradwyo'r Cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Awst 2015 fel cofnod cywir.

## 4. Materion yn Codi

4.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 24 Gorffennaf gan y Prif Weithredwr ar Faterion yn Codi.

4.2. Penderfynwyd derbyn yr Adroddiad yn ei gyfanrwydd, a nodwyd cynnydd wedi'i

ddiweddaru ar y materion canlynol:

(Mater 1) Holiadur Cyffredinol – Gweithredu'r holiadur i'w ohirio hyd nes bydd y rhaglen Arolygon Cychwynnol wedi'i chwblhau.

(Mater 3) Methodoleg maint Cynghorau Cymuned – **Penderfynwyd** y byddai'r Prif Weithredwr yn briffio ynglŷn â hyn yng nghyfarfod y Comisiwn ym mis Hydref 2015. **Prif Weithredwr**

(Mater 4) Cyfarwyddiadau Desg arolygon cymunedol – Mae'r cyfarwyddiadau desg wedi'u rhoi ar brawf ac maent bellach mewn sefyllfa i fabwysiadu'r diweddariadau. **Dirprwy Brif Weithredwr**

(Mater 10) Arolwg Cymunedol Sir y Fflint – Mae hwn i'w gyhoeddi cyn cyfarfod y Comisiwn ym mis Hydref. **Swyddog Arolygon**

(Mater 11) Cyfreithwyr y Trysorlys – Mae Adran Gyfreithiol y Llywodraeth wedi rhoi ymateb i'r Rheolwr Cymorth Busnes, a fydd yn cael ei brosesu gyda hyn. **Rheolwr Cymorth Busnes**

(Mater 13) Adroddiad Blynyddol ar Gynllun yr Iaith Gymraeg - Er bod mater yn dal i ddisgwyl ymateb gan Gomisiynydd y Gymraeg, bydd Cynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan CFfDLC.

(Mater 14) Porthol Ymgynghori Ar-lein. Yn dilyn trafodaethau gyda'r cyflenwyr, gofynnwyd am dendr newydd i gynnwys yr holl faterion gofynnol. **Prif Weithredwr**

(Mater 15) Adroddiad Blynyddol – Mae'r Adroddiad Blynyddol i'w gyhoeddi, a chaiff ei roi gerbron Cynulliad Cymru wedyn. **Prif Weithredwr**

(Mater 16) Cyfarfod Rhwng Comisiynau - Bydd y Cyfarfod Rhwng Comisiynau yn cael ei fynychu gan Mr. Watkin, Mr. Powell, Mrs. May a Mr. Halsall. **Prif Weithredwr/ Comisiynwyr**

(Mater 18) Mandad Banc – Mae cyfarfod wedi'i gynnal gyda'r banc i drefnu newidiadau. Mae'r Comisiwn yn disgwyl ymateb gan y banc ar hyn o bryd. **Rheolwr Cyllid**

(Mater 21) Cyfathrebu ynglŷn â'r Rhaglen Arolygon – Bydd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn mynychu cyfarfod gydag Arweinwyr CLlLC, pe dderbynnir gwahoddiad, i nodi barnau'r Comisiwn ar y Cyfarwyddyd drafft. **Prif Weithredwr**

(Mater 23) Adeilad Swyddfa – Adroddwyd bod perchenogaeth Tŷ Hastings yn nwylo The Ethical Property Company a bod arwyddion rhagarweiniol yn dangos bod telerau ac amodau ar gyfer ei feddiannu gan y Comisiwn yn debygol o fod yn dderbyniol. Gofynnir i Ystadau Llywodraeth Cymru sicrhau buddiannau'r Comisiwn. **Prif Weithredwr**

(Mater 24) Ffiniau at y Môr – Mae'r Comisiwn wedi gofyn am gyngor cyfreithiol ar gyfer arolygon posibl o ddarpar forlynnoedd yng Nghymru. **Prif Weithredwr**

(Mater 25) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – Bydd papur yn cael ei baratoi ar gyfer cyfarfod mis Hydref. **Prif Weithredwr**

## 5. Cyfarwyddiadau Drafft

5.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 14 Medi 2015 gan y Dirprwy Brif Weithredwr mewn perthynas â'r Cyfarwyddiadau drafft sy'n cael eu cynnig gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gweithredu Bil Llywodraeth Leol (Cymru) 2015 pan gaiff ei ddeddfu, ac awgrymiadau ar gyfer y Comisiwn.

5.2. **Penderfynwyd** derbyn yr adroddiad a chytuno'r ymateb drafft, yn amodol ar ddiwygiadau, y fersiwn derfynol i'w chytuno gan y Comisiynwyr a'i hanfon at Lywodraeth Cymru cyn 9 Tachwedd. **Dirprwy Brif Weithredwr**

## 6. Arolwg o Weithdrefnau Sicrhau Ansawdd Arolygon Cymunedol ac Etholiadol

6.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 3 Medi 2015 gan y Dirprwy Brif Weithredwr ac esboniwyd y broses Sicrhau Ansawdd newydd.

6.2. **Nodwyd** yr adroddiad gan y Comisiwn a **Derbyniodd** y broses newydd sydd i'w rhoi ar waith.

6.3. **Penderfynwyd** y bydd y broses yn cael ei monitro gyda'r gwaith arolygon sydd ar ddod – parhaus – **Dirprwy Brif Weithredwr.**

## 7. Buddsoddwyr mewn Pobl

7.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 27 Awst 2015 gan y Prif Weithredwr.

7.2. Croesawyd yr Adroddiad Buddsoddwyr mewn Pobl yn gynnes gan y Comisiwn a gwnaed sylwadau cadarnhaol gan yr Asesydd, yn ychwanegol at gadw'r achrediad Buddsoddwyr mewn Pobl.

7.3. **Nodwyd** yr Adroddiad Buddsoddwyr mewn Pobl gan y Comisiwn.

7.4. **Penderfynwyd** y byddai'r Prif Weithredwr a'r Rheolwr Cymorth Busnes yn gweithio ar roi'r argymhellion yn yr adroddiad ar waith.

## 8. Cynllunio Arolygon Cychwynnol

8.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 3 Medi 2015 gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

8.2. Ystyriodd y Comisiwn y diwygiadau i'r cynlluniau a chostio'r rhaglen arolygon yn sgil y Cyfarwyddyd Drafft.

8.3. **Nodwyd** yr adroddiad gan y Comisiwn.

## 9. Cynllunio Adnoddau'r Comisiynwyr Arweiniol

9.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 8 Medi 2015 gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

9.2. Ystyriodd y Comisiwn rôl y Comisiynydd Arweiniol ac ymrwymiad amser y rôl ar gyfer yr arolygon sydd ar ddod.

9.3. Cytunodd y Comisiwn i roi hyfforddiant cyfryngau i Gomisiynwyr Arweiniol fel rhan o'r rôl a byddai hwn yn cael ei gynnal cyn dechrau'r rhaglen arolygon.

9.4. **Nodwyd** yr adroddiad.

## 10. Arolwg Cymunedol Castell-nedd Port Talbot

10.1. (Nodwyd y Datganiad a wnaed gan Mrs. May.)

10.2. Ystyriodd y Comisiwn y cynlluniau a roddwyd gerbron gan y Swyddog Arolygon dyddiedig 20 Awst 2015; **Derbyniwyd** y canlynol gan y Comisiwn:

- Cynllun 1
  – Newid i'r ffin gymunedol rhwng Cwmafon a Phort Talbot
- Cynllun 2
  – Newid i'r ffin gymunedol rhwng Port Talbot a Thai-Bach
- Cynllun 4
  – Newid i'r ffin gymunedol rhwng Margam Moors a Sandfields East
- Cynllun 5
  – Newid i'r ffin gymunedol rhwng Baglan a Llansawel
- Cynllun 6
  – Newid i'r ffin gymunedol rhwng Onllwyn a Seven Sisters
- Cynllun 7
  – Creu Cymuned newydd Baglan Moors

10.3. **Cytunwyd,** yn achos y ffin gymunedol rhwng Margam a Thai-Bach (Brombil Gardens), i ymgynghori'n gyhoeddus ar Opsiwn C o'r Adroddiad, ar gyfer yr ymgynghoriad ar Gynllun 3, a'r rheswm am hynny yw bod yr opsiwn y mae'r Comisiwn yn ei ffafrio yn gwahaniaethu'n sylweddol oddi wrth gynnig y Cyngor. Byddai'r opsiwn a ffefrir gan y Comisiwn yn rhoi gwell mynediad a chysylltiadau cyfathrebu i'r etholwyr gyda chymuned Tai-Bach.

10.4. **Cytunwyd** mai ymgynghoriad cyfyngedig o 6 wythnos fyddai hyn, a byddai

ymgyrch bostio yn cael ei threfnu i'r etholwyr yr effeithir arnynt. **Swyddog Arolygon**

10.5. **Nodwyd** na chafodd gweithredu'r cynigion a restrwyd uchod unrhyw effeithiau ôl-ddilynol ar drefniadau etholiadol wardiau eraill.

## 11. Rheoli Risg

11.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 9 Medi 2015 gan y Rheolwr Cyllid.

11.2. **Cytunwyd** bod Risg Gorfforaethol CR3 yn ymwneud ag ansawdd gwaith a gynhyrchir gan y Comisiwn i'w symud i fod yn Risg Weithredol ar ôl cydnabod gwaith a wnaed i gryfhau'r prosesau sicrhau ansawdd. Os bydd angen, gellid gwrth-droi'r broses hon yn y dyfodol ac ail-aseinio'r risg i'r gofrestr Risgiau Corfforaethol. **Rheolwr Cyllid**

11.3. **Cytunwyd** y byddai'r canlyniadau a'r camau lliniaru o ran Risg CR7 yn cael eu diweddaru i gynnwys ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Gyfarwyddiadau drafft y Gweinidogion.

11.4. **Cytunodd** Aelodau y gellid bellach gynyddu Archwaeth Risg y Comisiwn ychydig i adlewyrchu'r lefel hyder newydd yn sgil y gwelliannau a wnaed ac a gydnabuwyd gan Lywodraeth Cymru yn dilyn Adroddiad Mathias. **Cytunwyd** y dylai'r raddfa statws risg ar gyfer risgiau gwyrdd gael ei chynyddu o 3 i 4. **Rheolwr Cyllid**

## 12. Adroddiad ar y Gyllideb

12.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 9 Medi 2015 gan y Rheolwr Cyllid.

12.2. Ar ôl adolygu'r tanwariant posibl o £30-40,000 **nodwyd** y byddai staffio ychwanegol, hyfforddiant y cyfryngau i Gomisiynwyr, a chostau Porthol Ymgynghori Ar-lein yn mynnu rhagor o waith ar ddyraniadau cyllideb nes ymlaen yn y flwyddyn. Byddai rhai o'r eitemau hyn hefyd yn mynnu'r angen am gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru a Swyddfa'r Cabinet ar ôl dechrau'r arolygon llywodraeth leol a seneddol. **Rheolwr Cyllid**

12.3. **Derbyniwyd** yr adroddiad.

## 13. Adroddiad am Gynnydd Arolygon

13.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 9 Medi 2015 gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

13.2. **Penderfynwyd** nodi'r Adroddiad ar statws cyfredol arolygon.

## 14. Calendr Digwyddiadau

14.1. **Cytunwyd** y calendr ond bydd angen rhoi ystyriaeth yn y dyfodol i ymrwymiadau hyfforddi Comisiynwyr ac argaeledd ar gyfer cyfarfodydd arolygon cychwynnol pan fydd y rhaglen wedi'i chwblhau.

## 15. Unrhyw Fusnes Arall Perthnasol

**Swyddfa Archwilio Cymru: Ymgynghoriad ar Gyfraddau Ffioedd a Graddfeydd Ffioedd 2016-17**

15.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 9 Medi 2015 gan y Rheolwr Cyllid i hysbysu Aelodau o Swyddfa Archwilio Cymru am yr ymgynghoriad ar ffioedd ar gyfer 2016-17.

15.2. **Cytunwyd** i ymateb i'r ymgynghoriad gan ddiolch i Swyddfa Archwilio Cymru am gynnwys y Comisiwn ar ei rhestr o ymgyngoreion a chan nodi'r bwriad na fydd cynnydd mewn ffioedd ar gyfer 2016/17. **Rheolwr Cyllid.**

**Gorchymyn Trefniadau Etholiadol Sir Benfro 2013.**

15.3. Rhoddwyd ystyriaeth i'r enwau lleoedd arfaethedig ar gyfer Wardiau etholiadol yn dilyn barnau Gwasanaeth Cyfieithu Llywodraeth Cymru. **Cytunwyd** bod y Comisiwn yn ffafrio'r canlynol

– Fishguard North East – *Gogledd-ddwyrain Abergwaun*;
– Llanddewi Velfrey and Lampeter Velfrey – *Llanddewi Felfre a Llanbedr Felfre*;
– Llanrhian, Mathry and Pencaer – *Llanrhian, Mathri a Phen-caer*;
– Milford Haven North East - *Aberdaugleddau Gogledd-ddwyrain*;
– Tenby North – *Dinbych-y-pysgod Gogledd*.

**Gweithredu - Swyddog Arolygon**

## 16. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: Dydd Iau 15 Hydref 2015